

Digimap for Schools

Blas yr Alban

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daearyddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Blas yr Alban

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Cynhyrchu hufen iâ organig yn Galloway	Galloway, Yr Alban

Gwybodaeth / Sgiliau	Dod o hyd i leoedd gan ddefnyddio cyfarwyddiadau a roddir / defnyddio allwedd / ychwanegu marcwyr a labeli
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Disgrifio a deall agweddau allweddol ar ddaearyddiaeth ddynol, gan gynnwys: defnydd tir; gweithgarwch economaidd, a gwasgariad adnoddau naturiol, gan gynnwys bwyd
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoniaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd 1-09a, 2-08a, 2-14a
Cwricwlwm Cymru	Defnyddio mapiau, delweddu a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol, a'i chyflwyno; mesur, casglu a chofnodi data trwy weithredu archwiliadau ymarferol gan ddefnyddio ffynonellau eilaidd

Gweithgaredd

Archwilio nodweddion fferm cynnyrch llaeth sy'n cynhyrchu hufen iâ a sut mae nifer o wahanol ffactorau yn bwysig er mwyn gwneud hwn yn ddiwydiant llwyddiannus.

Cyflwyniad

Mae cynhyrchu bwyd yn ddiwydiant pwysig iawn yn yr Alban. Mae un o bob pump o bobl sy'n gweithio yn niwydiant gweithgynhyrchu'r Alban yn rhan o'r diwydiant bwyd (Llywodraeth yr Alban, 2013). Fferm 340 hectar gyda 90 o wartheg Swydd Aeron, gyrr o wartheg sugno Angus a 500 o ddefaid ger Ardal o Harddwch Cenedlaethol yn ne-orllewin yr Alban yw 'Cream o' Galloway'. Mae'r busnes, sy'n croesawu dros 70,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, yn cynnwys cynhyrchu hufen iâ a thwristiaeth, gyda chanolfan ymwelwyr i deuluoedd a choetir (sy'n cynnwys llwybrau natur). Gwerthir hufen iâ Cream o' Galloway ledled Prydain Fawr. Gan ddefnyddio *Digimap for Schools*, mae disgyblion yn gallu archwilio nodweddion y safle a lleoliad y fferm a pha mor bell mae'r cynnyrch yn teithio.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Mae yna dair rhan i'r gweithgaredd hwn sy'n gallu cael eu cyflwyno dros fwy nag un sesiwn.

Cyflwynwch y fferm rydych yn mynd i fod yn siarad amdani a'r hufen iâ sy'n cael ei gynhyrchu yno, un ai trwy ddefnyddio gwefan y cwmni neu'r ffilm fer sy'n sôn am beth maen nhw'n ei wneud (cyfeiriwch at ddolenni gwe 1 a 2).

Yn ogystal, mae yna daflen gwybodaeth gefndirol.

Rhan 1 – Yr hyn sydd ei angen ar ffermwr i wneud hufen iâ

- Gyda'ch dosbarth, trafodwch y pethau pwysicaf sydd eu hangen ar ffermwr i wneud hufen iâ o ansawdd. Defnyddiwch y gweithgaredd trefnu cardiau a ddarperir a'r daflen waith i gofnodi syniadau am y pethau sydd eu hangen, o bosibl, ar ffermwr a sut mae'r pethau hyn yn gysylltiedig. Gallai'r disgyblion weithio mewn grwpiau i drefnu'r cardiau, penderfynu ar y pethau mwyaf pwysig a sut gallent fod yn gysylltiedig â'i gilydd.
- Cedwir y gwartheg o dan do yn ystod misoedd y gaeaf cyn cael eu gadael allan i'r caeau yn y gwanwyn. Pam? Ydy'r disgyblion yn meddwl bod y gwartheg yn llawn cyffro am fynd allan eto? Gwyliwch y fideo 'Cows out to grass' (cyfeiriwch at ddolen we 3). Ydy'r disgyblion yn meddwl bod gwartheg hapus a bodlon yn cynhyrchu llaeth o ansawdd gwell?

Rhan 2 – Beth allwch chi ddarganfod am y fferm o'r map?

- **Dod o hyd i'r fferm a'i labelu**

Gofynnwch i'r disgyblion agor *Digimap for Schools* a dod o hyd i'r fferm gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y daflen wybodaeth:


O'r dwyrain neu'r gorllewin ar yr A75, ewch heibio i'r troad cyntaf ar gyfer Gatehouse of Fleet gan droi i'r de ar Sandgreen Road. Dilynwch y ffordd hon am oddeutu 2 gilometr cyn troi i'r chwith tuag at Lennox Plunton. Mae Cream o' Galloway ar Fferm Rainton oddeutu 1 cilometr ar hyd y ffordd hon – mae'n amhosibl ein methu!

Cyngor: Mewnbynwch 'Gatehouse of Fleet' i'r blwch pori a thynnu allan un lefel ar y tro tan ddod o hyd i'r A75. Wedyn, gallwch glosio yn ôl at y map a defnyddio'r offeryn graddfa i ddod o hyd i ffyrdd llai o faint sy'n arwain at y fferm.

Fel arall, gallwch ddefnyddio cod post y fferm, sef DG7 2DR.

Pan mae'r disgyblion yn dod o hyd i Fferm Rainton, gofynnwch iddynt ychwanegu marciwr. Bydd angen iddynt agor y bar offer nodiadau (*Annotation toolbar*), dewis 'Add Marker' a chlicio ar y fferm. Wedyn, dewiswch liw, maint (ceisiwch 18) a'r math o ffont cyn dewis 'Place Label' a labelu'r fferm 'Cream o' Galloway'.

- **Archwilio'r fferm – taflen waith**

Dylai'r disgyblion wneud i'r map lenwi'r sgrin trwy ddefnyddio .

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Anogwch nhw i archwilio'r fferm trwy glosio mor agos ag sy'n bosibl at y map OS MasterMap® (manylder uchaf) a dod o hyd i'r holl eitemau ar y daflen waith ganlynl.

Gofynnwch iddynt ddisgrifio'r fferm gan ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi ei ddarganfod o'r map. Yn ogystal, gall y disgyblion ddewis yr olygfa map orau o'r fferm a'i chadw gyda theitl a/neu ei hargraffu.

Dyma ambell beth y mae'n bosibl y byddwch yn dod o hyd iddynt yn *Cream o' Galloway*

Labelwch nhw ar eich map wrth i chi ddod o hyd iddynt:




Beth yw'r nodwedd hon ar y map ar y chwith? Clwi 1: edrychwch ar y smotyn du ar y darn llwyd a defnyddiwch allwedd y map i ddod o hyd i'w ystyr. Clwi 2: gallwch ddod o hyd iddo oddeutu 300m i'r de-orllewin o adeiladau Fferm Rainton.

Mae'r map uchod yn cynnwys traciau. Yn eich barn chi, pa weithgaredd sy'n digwydd yma?



Llwybrau – mae'r ddelwedd ar y chwith yn dangos map o'r llwybr natur oddi ar y wefan. Pam (ac ym mha ffyrdd) mae'n edrych yn wahanol i fap 'go iawn' *Diainmap for Schools* isod?



Dewch o hyd i'r olygfa hon a labelwch y canlynol:

- Maes parcio ymwelwyr
- Pwll
- Tŵr gwylio nythod Cras
- Glaswellt a thir pori
- Maes chwarae antur awyr agored
- Sleid tiwb
- Ysgubor chwarae dan do

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Rhan 3 – Pa mor bell mae'r hufen iâ yn teithio o'r fferm?

Fel arfer, diffinnir bwyd 'lleol' fel bwyd sy'n cael ei gyflenwi o fewn radiws o 30-50 milltir o'r ffynhonnell. Gall y disgyblion ddod o hyd i'r ddolen hon ar y wefan www.creamogalloway.co.uk/stockists ac archwilio lle mae'r hufen iâ yn cael ei werthu. Gofynnwch i'r disgyblion fewnbynnu rhan gyntaf cod post y fferm, sef DG7, a chwilio am stocwyr o fewn radiws o 50 milltir. Oes yna lawer o siopau? Beth mae'r canlyniadau yn dweud wrthoch chi?

Pa mor bell mae'r hufen iâ yn teithio a pha fath o siopau sy'n ei stocio? Ydy'r disgyblion yn credu bod yr hufen iâ ar werth mewn siop sy'n lleol iddyn nhw? Gofynnwch iddynt fewnbynnu rhan gyntaf cod post yr ysgol er mwyn dod o hyd i'r cyflenwr agosaf. Os nad oes unrhyw beth o fewn dwy filltir i god post yr ysgol, lledaenwch yr ardal gan ddefnyddio'r offeryn chwilio.

Pan ddewch o hyd i'r siop neu'r stociwr agosaf, gwnewch nodyn o'r cod post. Gan ddefnyddio'r cod post hwn, cod post yr ysgol a chod post y fferm, sef DG7 2DR, ychwanegwch dri marciwr i'r map a'u labelu: 'Ein siop agosaf', 'Cream o' Galloway' ac 'Ein Hysgol'.

Mesurwch y pellter o'r fferm i'r siop gan ddefnyddio'r offeryn mesur, 'Measure distance'. Cliciwch ar y fferm a llusgo'r llygoden at y cyflenwr agosaf mewn llinell syth (gan fesur 'fel yr hed y frân'). Mae'n bosibl gweld y mesuriadau mewn cilometrau neu filltiroedd.

Gofynnwch i'r disgyblion esbonio pam y byddai pobl eisiau prynu'r hufen iâ hwn a pha mor dda yw lleoliad y fferm ar gyfer cynhyrchu cynnyrch llaeth, cynnal canolfan ymwelwyr a dosbarthu cynnyrch.

Mynd ymhellach

- Darganfyddwch ba fwydydd eraill sy'n dod o'r Alban. Crëwch fap yn cynnwys safleoedd a labeli i ddangos y mathau gwahanol o fwyd a diod a ble maen nhw wedi'u lleoli.
- Archwiliwch ffermio 'organig' a pha un a ydych chi o'r farn bod hynny'n syniad da ai peidio i ffermwyr, cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Dolenni

1. Siop hufen iâ www.creamogalloway.co.uk/
2. Ffilm fer am *Cream o' Galloway* <http://programmes.stv.tv/five-thirty-show/top-stories/90906-cream-o-galloway/>
3. Fideo Cows out to Grass <http://www.youtube.com/watch?v=uQadjA7ztrM&list=UUDZKy0sgzbGTSGSvt5AJm5g&index=10&feature=plcp> Dolen teledu *Safeshare* <http://www.safeshare.tv/w/GiVdbZRfKH> (ar gyfer ysgolion sy'n defnyddio dolenni *Youtube*)
4. Stocwyr hufen iâ *Cream o' Galloway* <http://www.creamogalloway.co.uk/stockists>
5. Cymdeithas y Pridd www.soilassociation.org/
6. Gwybodaeth Llywodraeth yr Alban am y diwydiant bwyd a diod <http://www.scotland.gov.uk/Topics/Business-Industry/Food-Industry>
7. Delweddau *Flickr Cream o' Galloway* <http://www.flickr.com/photos/creamogalloway/>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Taflen wybodaeth *Cream o' Galloway* - www.creamogalloway.co.uk

Cream o' Galloway, Rainton, Gatehouse of Fleet, Castle Douglas. Cyfeirnod Grid: NX 600 519. O'r dwyrain neu'r gorllewin ar yr A75, ewch heibio i'r troad cyntaf ar gyfer Gatehouse of Fleet gan droi i'r de ar Sandgreen Road. Dilynwch y ffordd hon am oddeutu 2 gilometr cyn troi i'r chwith tuag at Lennox Plunton. Mae Cream o' Galloway ar Fferm Rainton oddeutu 1 cilometr ar hyd y ffordd hon – mae'n amhosibl ein methu!

www.creamogalloway.co.uk



Yma, mae David yn esbonio sut y gwnaeth Wilma ac ef ymuno â'r diwydiant hufen iâ a thwristiaeth yn y 1990au oherwydd nad oedd y fferm yn gwneud llawer o arian. Y cynllun oedd *arallgyfeirio*, a oedd yn golygu dod o hyd i fforddau eraill o wneud defnydd o adnoddau'r fferm.

Yn y 1990au cynnar, gorfodwyd Fferm Rainton i arallgyfeirio oherwydd y pwysau ariannol oedd yn effeithio ar nifer fawr o ffermydd bychain ledled y DU. Penderfynom ni droi hen adeilad allanol yn ffatri hufen iâ a cheisio troi ein llaeth yn hufen iâ o ansawdd ac, ar ôl dwy flynedd o ymchwil, datblygu, adeiladu a samplo helaeth, lansiodd ein cynnyrch hufen iâ cyntaf yn Sioe Frenhinol yr Ucheldiroedd 1994. Ar y pryd, dim ond wyth blas oedd gennym ni, ond roedd yr ymateb mor gadarnhaol fel yr oeddem ni'n gwybod bod cyfle da iawn i ni lwyddo.

Un o'r pethau gorau am hufen iâ yw bod y teulu cyfan yn gallu ei fwynhau a threulio amser o ansawdd yn ei fwynhau, ac felly agorom ni ganolfan fechan i ymwelwyr – byrddau picnic, siglenni a rhywle i brynu hufen iâ. Cawsom ein synnu pan roedd hynny'n ddigon i ddenu 7,000 o ymwelwyr ym 1994, felly aethom ati i ehangu ac mae'r ymwelwyr rheolaidd wedi gweld sut mae ein canolfan ymwelwyr wedi tyfu a datblygu o flwyddyn i flwyddyn.

Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae ein maes chwarae antur wedi datblygu i fod yn atyniad ardderchog sy'n cynnwys tŵr gwyllo 50 troedfedd o uchder ac unig ddrysfa 3D yr Alban; mae ein llwybrau natur wedi datblygu o fod yn llwybrau byr trwy gaeau glaswelltog i fod yn llwybrau prysur heibio i byllau naturiol prydfarth, trwy aceri o goetiroedd newydd eu plannu, a heibio i berthi a thir pori. Bellach, mae'r ganolfan ymwelwyr yn cynnwys caffi a bwyty, siop roddion a dewis o 30 blas gwahanol o hufen iâ. Yn ogystal, mae ein taith dywysedig yn cynnig cyfle i ymwelwyr gael cipolwg tu ôl i'r llenni ar bob agwedd o'n busnes. Heddiw, rydym ni'n falch iawn o groesawu dros 70,000 o ymwelwyr trwy ein drysau bob blwyddyn, sy'n ein gwneud yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd de'r Alban.

Ar bob cam o'r daith, rydym ni wedi ceisio bod mor gynaliadwy â phosibl wrth dyfu, ac nid ydym yn lansio unrhyw brosiect newydd heb ystyried yr effaith ar yr amgylchedd a'r ardal leol yn ofalus. Dros y blynyddoedd, mae'r ymrwymiad hwn i'r tirlun rydym ni'n rhan ohono wedi derbyn cydnabyddiaeth ar ffurf nifer o wobrau amgylcheddol, sy'n cael eu harddangos gyda balchder drws nesaf i'r gwobrau rydym ni wedi'u hennill am ein bwyd, ein ffermio a hyd yn oed dyluniad pecynnau ein hufen iâ.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Anghenion y Ffermwr...

Enw _____

Yn eich barn chi, pa rai o'r canlynol sydd eu hangen ar ffermwr laeth i wneud hufen iâ? Oes rhai yn bwysicach nag eraill?

Gwartheg i gynhyrchu laeth

Tir i'r gwartheg bori ac i dyfu bwyd i'r gwartheg

Gwair i'r gwartheg ei fwyta

Adeiladau i odro'r gwartheg a storio peiriannau a bwyd

Dŵr er mwyn rhedeg a golchi'r peiriannau

Canolfan ymwelwyr i wneud arian ychwanegol ac i hysbysebu eich cynnyrch

Cwsmeriaid a siopau i werthu eich cynnyrch

Mynediad da: ffyrdd i ddod â phethau i'r fferm ac o'r fferm

Yr **hinsawdd** a'r **tywydd** cywir i helpu i dyfu gwair


Y math cywir o **bridd** i helpu'r gwair i dyfu'n dda

Gweithwyr i weithio ar y fferm

Ffynonellau ynni i bweru'r peiriannau a chadw'r hufen iâ yn oer



Tynnwch linellau i ddangos y pethau sydd, o bosibl, wedi'u cysylltu, ac esboniwch pam. Pa bethau eraill y gallwch chi feddwl amdanynt?



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

<p>Gwartheg i gynhyrchu llaeth</p>	<p>Tir i'r gwartheg bori ac i dyfu bwyd i'r gwartheg</p>	<p>Canolfan ymwelwyr i wneud arian ychwanegol a hysbysebu eich cynnyrch</p>	<p>Y math cywir o bridd i helpu'r gwair i dyfu'n dda</p>
<p>Gwair i'r gwartheg ei fwyta</p>	<p>Dŵr er mwyn rhedeg a golchi'r peiriannau</p>	<p>Mynediad da: ffyrdd i ddod â phethau i'r fferm ac o'r fferm</p>	<p>Gweithwyr i weithio ar y fferm</p>
<p>Adeiladau i odro'r gwartheg a storio peiriannau a bwyd</p>	<p>Cwsmeriaid a siopau i werthu eich cynnyrch</p>	<p>Yr hinsawdd a'r tywydd cywir i helpu i dyfu gwair</p>	<p>Ffynonellau ynni i bweru'r peiriannau a chadw'r hufen iâ yn oer</p>